

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael /An English version of this document is available.

POLISI RHEOLI RISGIAU

CWMPAS A PHWRPAS POLISI

Mae'r polisi rheoli risg hwn ("y polisi") yn berthnasol i Goleg Caerdydd a'r Fro a'i is-gwmnïau (y cyfeiriwn ato fel "y Coleg" o hyn allan), ac mae'n ffurfio rhan o drefniadau rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol y Coleg.

Mae'r polisi yn egluro dull sylfaenol y Coleg o reoli risgiau, yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethol, y timau gweithredol ac uwch reolwyr a phartïon allweddol eraill. Mae hefyd yn amlinellu agweddau allweddol ar y broses rheoli risgiau, ac yn nodi'r prif weithdrefnau adrodd.

Yn ogystal, mae'n disgrifio'r broses y bydd y Corff Llywodraethu yn ei defnyddio i werthuso effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli mewnol y Coleg.

DIFFINIADAU

Tybir bod y diffiniadau canlynol yn berthnasol i holl ddogfennau'r Coleg sy'n ymwneud â rheoli risg.

Mae Trysorlys EM yn diffinio "risg" fel "ansicrwydd canlyniad, boed yn gyfle cadarnhaol neu'n fygythiad negyddol, gweithredoedd a digwyddiadau. Rhaid asesu'r risg mewn perthynas â'r cyfuniad o'r tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd, a'r effaith os bydd yn digwydd mewn gwirionedd".

Mae canllawiau'r Sefydliad Safonau Prydeinig ar reoli risg yn diffinio "Goddefgarwch Risg" ac "Awydd Risg" fel a ganlyn:

- Awydd Risg - "faint a'r math o risg y mae sefydliad yn barod i'w geisio, ei dderbyn neu ei oddef";
- Goddefgarwch Risg - "parodrwydd y sefydliad i wynebu'r risg ar ôl triniaethau risg er mwyn bodloni ei amcanion".

DATGANIADAU POLISI

Bydd y Coleg yn mabwysiadu arferion gorau wrth adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau mewn ffordd gost-effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dileu neu eu lleihau i lefel dderbyniol.

Rhaid cydnabod na fydd modd dileu pob risg bob tro. Rhaid i bob cyflogai ddeall natur risg a derbyn cyfrifoldeb am risgiau sy'n gysylltiedig â'u hawdurdod yn eu meysydd perthnasol, gan wybod y bydd cefnogaeth, cymorth ac ymrwymiad yr uwch dîm rheoli ar gael iddynt.

Amcanion rheoli risg y Coleg yw:

- galluogi'r Coleg i archwilio cyfleoedd newydd a chynnal gweithgareddau newydd gan roi sylw dyledus i'r risgiau cysylltiedig;
- integreiddio rheoli risg i ddiwylliant y sefydliad;
- rheoli risg yn unol ag arfer gorau;
- ystyried cydymffurfiaeth gyfreithiol fel safon ofynnol;
- rhagweld ac ymateb i ofynion cymdeithasol, amgylcheddol a deddfwriaethol sy'n newid;
- atal anafiadau a difrod a lleihau cost risg;
- codi ymwybyddiaeth o'r angen am reoli risg.

Mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn amlinellu dull y Coleg o reoli risg a rheolaeth fewnol:

- y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am oruchwylio rheoli risgiau o fewn y Coleg yn ei gyfanrwydd
- bydd y Corff Llywodraethu'n meithrin dull agor ac ymatebol i gymryd risgiau a lleddfu risgiau
- mae Prif Weithredwr y Grŵp a'r Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi, cynghori a gweithredu polisiau a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu
- mae'r Coleg yn cydnabod ac yn datgelu'n geidwadol ac yn ddarbodus goblygiadau ariannol ac anariannol risgiau
- mae penaethiaid adrannau a rheolwyr llinell yn gyfrifol am annog arferion rheoli risg da yn eu hadran
- nodir risgiau allweddol fel rhan o'r broses gynllunio strategol a'u monitro'n rheolaidd.

RÔL Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae gan y Corff Llywodraethu rôl hanfodol wrth reoli risgiau. Ei rôl yw:

- Pennu'r agwedd a dylanwadu'r diwylliant rheoli risgiau yn y Coleg. Mae hyn yn cynnwys:
 - penderfynu a yw'r Coleg yn 'cymryd risgiau' neu'n 'osgoi risgiau' yn ei gyfanrwydd neu ar unrhyw fater unigol perthnasol;
 - penderfynu pa fathau o risg sy'n dderbyniol a pha rai sydd ddim;
 - pennu safonau a disgwyliadau staff mewn perthynas ag ymddygiad a chywirdeb.
- Penderfynu ar yr awydd risg neu lefel briodol o amlygiad i'r Coleg.
- Cymeradwyo penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar broffil risg neu amlygiad y Coleg.
- Monitro rheoli risgiau sylweddol i leihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd annisgwyl.
- Gwneud yn siwr bod y risgiau llai sylweddol yn cael eu rheoli'n weithredol, gyda'r rheolaethau priodol ar waith a'r rheiny'n gweithio'n effeithiol.
- Adolygu dull y Coleg o reoli risg yn flynyddol a chymeradwyo newidiadau neu welliannau i elfennau allweddol o'i brosesau a'i weithdrefnau (mae'r Pwyllgor Archwilio yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon).

RÔL Y TIMAU GWEITHREDOL AC UWCH REOLWYR

Dyma rolau allweddol y timau gweithredol ac uwch reolwyr:

- Gweithredu polisiau ar reoli risg a rheolaeth fewnol;
- Nodi a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n wynebu'r Coleg i'w hystyried gan y Corff Llywodraethu;
- Darparu gwybodaeth ddigonol mewn modd amserol i'r Corff Llywodraethu a'i bwyllgorau ar statws risgiau a rheolaethau; a

- Cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol
- Rheoli ac ysgrifennu adroddiad i'r Corff Llywodraethu.

RÔL Y CYDLYNYDD RHEOLI RISG

Y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu yw'r cydlynnydd rheoli risg dynodedig, gyda chyfrifoldeb am:

- Sicrhau bod y polisi rheoli risg yn cael ei adolygu'n rheolaidd;
- Cydlynu diweddariadau tymhorol y gofrestr risg;
- Cyngori'r timau gweithredol ac uwch reolwyr ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg

GODDEFGARWCH RISG

Dull y Coleg yw lleihau neu leihau'r tebygolrwydd o niwed i enw da, cydymffurfiaeth a risg ariannol, gan dderbyn ac annog mwy o risg wrth geisio cyflawni ei genhadaeth a'i amcanion.

Yn achos rhai risgiau, nid oes unrhyw fudd strategol clir o'u derbyn, e.e. risgiau sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu anfoesegol, anghyfreithlon neu amhriodol, tra nad yw rhai risgiau eraill yn ddymunol yn ei hanfod, e.e. lle gellid disgwyl yn rhesymol budd economaidd neu fudd i ddysgwyr.

Mae'r Coleg felly'n cydnabod bod ei awydd am risg yn amrywio yn ôl y gweithgaredd a wnaed, a bod y broses o dderbyn risg bob amser yn amodol ar sicrhau bod manteision a risgiau posibl yn cael eu deall cyn i weithgareddau gael eu hawdurdodi, a bod mesurau priodol i liniaru risg yn cael eu sefydlu.

Disgrifir safbwynt y Coleg o ran risg ar draws saith categori isod. Mae'r goddefgarwch risg ar gyfer pob categori wedi'i osod gan ddefnyddio graddfa oddefgarwch o 1 i 6 (isel i uchel). Does dim rhaid dilyn y "sgôr" goddefgarwch bob tro, ond mae'n fesur dangosol o oddefgarwch y Coleg i'r categori risg hwnnw.

Enw da

Ystyrir ei bod hi'n hanfodol i'r Coleg gynnal ei enw da. Mae gan y Coleg lefel isel o dderbyn risg o'r fath, o ystyried pa mor anodd yw gwneud yn iawn am niwed i enw da. Felly, nid oes gan y Coleg awydd risg wrth gyflawni unrhyw rai o'r gweithgareddau sy'n peri risg i enw da, a allai arwain at gyhoeddusrwydd

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

drwg annheg, neu a allai arwain at randdeiliaid y Coleg yn colli hyder.

Lefel goddefgarwch risg = Isel (1).

Cydymffurfiaeth

Mae'r Coleg yn pwysleisio cydymffurfiaeth, a does dim awydd torri rheolau statudol, rheoliadau, safonau proffesiynol, llwgrwobrwo neu dwyll.

Lefel goddefgarwch risg = Isel (1).

Cyllid

Nod y Coleg yw cynnal hyfywedd ariannol hirdymor ac iechyd ariannol cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn gallu gwrthsefyll rhywfaint o risg ariannol ac, o ystyried potensial enillion strategol, mae mewn sefyllfa i ystyried derbyn rhywfaint o risg ariannol.

Lefel goddefgarwch risg = Canolig (3).

Addysg a phrofiad y dysgwr

Yn unol â'i werthoedd craidd, nod y Coleg yw darparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig i'w fyfyrwyr ac felly mae'n annog dull arloesol o gyflwyno dysgu, a pharodrwydd i roi cynnig ar ddulliau newydd. Mae'n cydnabod y dylai hyn gynnwys mwy o risg wrth ddatblygu a gwella profiad myfyrwyr, a'i fod yn gyfforddus wrth dderbyn y risg hon, yn amodol bob amser ar sicrhau bod buddion a risgiau posibl yn cael eu deall yn llawn a bod mesurau priodol i liniaru risg yn cael eu sefydlu.

Lefel goddefgarwch risg = Canolig (3).

Gweithgareddau newid neu ddatblygu mawr (e.e. prosiectau, cydweithrediadau, gweithgaredd cynhyrchu incwm nad yw'n grant)

Mae'n angenrheidiol ac yn briodol i'r Coleg ystyried newidiadau mawr neu weithgareddau datblygu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion strategol. Mae'r Coleg yn disgwyl i newidiadau o'r fath gael eu rheoli yn unol â'r arfer gorau o ran rheoli prosiectau a newid, ac mae ganddo awydd isel am wroddi wrth safonau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn cydnabod, o bryd i'w gilydd, y gallai rhai mentrau fod â mwy o risg nag arfer.

Lefel goddefgarwch risg = Canolig (4).

Amgylchedd a chyfrifoldeb cymdeithasol

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i wneud cyfraniad sylweddol, cynaliadwy a chyfrifol gymdeithasol i ardaloedd a chymunedau Cymru y mae'n eu gwasanaethu trwy ei weithgareddau addysg a gweithredol. Mae'n cydnabod y gallai hyn gynnwys mwy o risg ac mae'n fodlon derbyn y risg hon, yn amodol bob amser ar sicrhau bod manteision a risgiau posibl yn cael eu deall a bod mesurau priodol i liniaru risg yn cael eu sefydlu.

Lefel goddefgarwch risg = Canolig (3).

Pobl a diwylliant

Bydd y Coleg yn ymdrechu i werthfawrogi, cefnogi, datblygu a defnyddio potensial llawn ei staff. Mae'r Coleg yn rhoi pwyslais ar ddiwylliant o gydraddoldeb ac amrywiaeth, urddas a pharch, colegoldeb, datblygiad staff, ac iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Does dim llawer o awydd gwyrho o safonau a gydnabyddir yn gyffredinol yn y meysydd hynny, a gall dderbyn risg ar raddfa fach wrth fynd ar drywydd y safonau hyn. Hefyd, o ystyried y gwydnwch a ddatblygwyd trwy fuddsoddi mewn datblygu staff, gall y Coleg hefyd dderbyn colli staff profiadol o bryd i'w gilydd.

Lefel goddefgarwch risg = Isel (2).

Parhad Busnes

Bydd y Coleg yn sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer rheoli ac adfer digwyddiadau/trychinebau sylweddol. Wrth gydnabod bod cryn amrywiaeth o ran difrifoldeb digwyddiadau o'r fath, a bod y tebygolrwydd o ddigwyddiadau mawr yn isel, mae posibilrwydd o darfu mawr ar ddarparu gwasanaethau. Cydnabyddir hefyd y gallai rheolaeth digwyddiad cymharol fach yn wael arwain at ôl-ffeithiau sylweddol, megis difrod i enw da drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Lefel goddefgarwch risg = Isel (1).

RHEOLI RISG FEL RHAN O'R SYSTEM RHEOLI MEWNOL

Mae'r system rheoli mewnol yn cynnwys rheoli risg. Mae'r system hon yn cynnwys nifer o elfennau sydd, gyda'i gilydd, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ac effeithlon, gan alluogi'r Coleg i ymateb i amrywiaeth o risgiau gweithredol, ariannol a masnachol. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys:

Polisiâu a gweithdrefnau

Cyfes o bolisiâu sy'n sail i'r broses reoli mewnol. Mae'r polisiâu yn cael eu gosod gan y Corff Llywodraethu a'u gweithredu a'u cyfleu gan uwch reolwyr i staff. Mae gweithdrefnau ysgrifenedig yn cefnogi'r polisiâu lle bo hynny'n briodol.

Adrodd a monitro

Mae ystod o weithgareddau adrodd a monitro yn digwydd i sicrhau bod modd monitro a mesur risgiau allweddol a'u rheolaethau yn rheolaidd. Gwneir penderfyniadau i unioni problemau yng nghyfarfodydd rheolaidd y timau gweithredol ac uwch reolwyr a'r Corff Llywodraethu os yw'n briodol.

Cynllunio strategol a chyllidebu

Defnyddir y broses cynllunio a chyllidebu busnes i osod amcanion, cytuno ar gynlluniau gweithredu, a dyrannu adnoddau. Mae'r cynnydd tuag at gyflawni amcanion cynllun busnes yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Fframwaith risg strategol

Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â nodau ac amcanion strategol y Coleg. Mae'n seiliedig ar y broses gynllunio strategol a gynhaliwyd gan Dîm Rheoli y Coleg ac fe'i hadolygir gan yr uwch dîm rheoli. Mae'n helpu i hwyluso'r gwaith o adnabod, asesu a monitro risgiau arwyddocaol i'r Coleg yn barhaus. Mae'r gofrestr risgiau a ddatblygwyd o'r broses hon yn cael ei hadolygu'n dymhorol gan y Pwyllgor Gwaith ac yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Corff Llywodraethu llawn.

Fframweithiau risg adrannau

Mae'r fframwaith risg adrannol yn seiliedig ar broses bresennol yr Adolygiad Hunanasesu (SAR) a'r Cynllun Datblygu Ansawdd (QDP). Mae Penaethiaid Adran a rheolwyr llinell yn defnyddio'r fframwaith hwn i sicrhau bod risgiau sylweddol yn eu hadran yn cael eu nodi, eu hasesu a'u monitro. Mae'r gofrestr risg yn cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd, gan ychwanegu risgiau sy'n dod i'r amlwg yn ôl yr angen, a chamau gwella a dangosyddion risg yn cael eu

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

hystyried mewn cyfarfodydd fîm.

Pwyllgor Archwilio

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio adrodd i'r Corff Llywodraethu ar reolaethau mewnol a rhybuddio llywodraethwyr am unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn goruchwyllo prosesau archwilio mewnol, archwilio a rheoli allanol fel sy'n ofynnol yn ei adolygiad o reolaethau mewnol. Felly, mae'r pwyllgor mewn sefyllfa dda i roi cyngor i'r bwrdd ar effeithiolrwydd y system reoli fewnol, gan gynnwys system y Coleg ar gyfer rheoli risg.

Rhaglen archwilio mewnol

Mae archwilio mewnol yn elfen bwysig ar y broses reoli fewnol. Ar wahân i'w raglen waith arferol, mae archwiliad mewnol yn gyfrifol am agweddau ar yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system reoli fewnol o fewn y sefydliad.

Archwilio allanol

Mae archwiliad allanol yn rhoi adborth i'r Pwyllgor Archwilio ar weithredu'r rheolaethau ariannol mewnol a adolygir fel rhan o'r archwiliad blynyddol.

Adroddiadau trydydd parti

O bryd i'w gilydd, bydd angen defnyddio ymgynghorwyr allanol mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, ac adnoddau dynol. Gall defnyddio trydydd partïon arbenigol ar gyfer ymgynghori ac adrodd gynyddu dibynadwyedd y system reoli fewnol.

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O EFFEITHIOLRWYDD

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yn flynyddol a gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw yn y cyfrifon blynyddol. Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol adolygu ac adrodd ar eu hadolygiad o'r datganiad hwnnw.

Mae'r Corff Llywodraethu yn seilio eu hadolygiad blynyddol ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Pwyllgor Archwilio drwy eu hadroddiad blynyddol, y Tîm Gweithredol a'r archwilwyr mewnol ac allanol.

DATGANIAD CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith ar gyfer y Polisi hwn.

GOBLYGIADAU IECHYD A DIOGELWCH

Does dim goblygiadau iechyd a Diogelwch ynghylch y polisi hwn.

POLISIÂU CYSYLLTIEDIG

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithgareddau, polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol.

GWEITHDREFNAU CYSYLLTIEDIG

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithgareddau, polisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol.

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y Coleg. Os byddwch yn dewis cael copi caled, gall y copi hwnnw fod wedi dyddio bellach.

Dyddiad Cymeradwyo: 13/04/2021

Cymeradwywyd gan: Prif Fwrdd

Dyddiad Adolygu Nesaf: 05/04/2024

Rheolwr Cyfrifol: Rheolydd Ariannol Grŵp

Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu

Ar gael i fyfyrwyr: Na